

9A

9A1251556

(21)

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRUWELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

2016 Rhif 1015 (Cy. 244)

2016 No. 1015 (W. 244)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol  
Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfyn  
Cyflymder 20 mya Rhan-amser)  
2016

The A494 Trunk Road (Ysgol  
Brynhyfryd and Ruthin School,  
Denbighshire) (Part-Time 20 mph  
Speed Limit) Order 2016

Gwnaed

18 Hydref 2016

Yn dod i rym

24 Hydref 2016

Made

18 October 2016

Coming into force

24 October 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar  
gyfer Cefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw  
(yr A494) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a  
roddir iddynt gan adran 84(1) a (2) o Ddeddf  
Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984"), ac  
ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd  
Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the  
Dolgellau – South of Birkenhead Trunk Road (A494)  
("the trunk road"), in exercise of the powers conferred  
upon them by sections 84(1) and (2) of the Road  
Traffic Regulation Act 1984(1) ("the 1984 Act") and  
after consultation with the Chief Officer of the North  
Wales Police, make this Order.

## Enwi, Dehongli a Chychwyn

## Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Hydref 2016 a'i  
enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ysgol  
Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfyn  
Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2016.

1. This Order comes into force on 24 October 2016  
and its title is The A494 Trunk Road (Ysgol  
Brynhyfryd and Ruthin School, Denbighshire) (Part-  
Time 20 mph Speed Limit) Order 2016.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio  
gan y gwasanaethau brys at y dibenion a  
ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency  
services for the purposes described in section  
87 of the 1984 Act(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at  
ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr  
ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro  
yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o  
lluoddd cartref y Goron sy'n aelod o'r lluoedd  
arbennig—

(b) any vehicle being used for naval, military  
or air force purposes and are being driven by  
a person for the time being subject to the  
orders of the member of the home forces of  
the Crown, who is a member of the special  
forces—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar  
gyflymderau uchel ac sy'n  
gweithredu wrth ymateb, neu wrth  
ymarfer ymateb, i argyfwng  
diogelwch gwladol; neu

(i) in response, or for practice in  
responding, to a national security  
emergency by a person who has  
been trained in driving at high  
speeds; or

- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 117 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt cyffordd y fynedfa i gerbydau i Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun hyd at bwynt 17.5 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd â Bryn Eryl.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

18 Hydref 2016

N Ley

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013 (p. 22), (mae’r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i’r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20)).

- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds.

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

### Restriction

3. No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour in the length of the trunk road that extends from a point 117 metres east of the centrepoin of its junction with the vehicular entrance to Ysgol Brynhyfryd, Ruthin to a point 17.5 metres east of the centrepoin of its junction with Bryn Eryl.

4. The provision of article 3 applies only during such times and to such extent as the application of the restriction referred to therein is indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

18 October 2016

N Ley

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 2, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8(2), paragraph 29(2) (substitution has effect as SI 2013/1682 subject to savings and transitional provisions specified in section 15 of, and Schedule 8 to, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(5)).